# Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**12.00 y.h., DYDD GWENER, 7FED HYDREF, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**
*I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni*

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru / 01286 679490**

(Dosbarthwyd 03/10/2022)

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Aelodau Cyngor

Cyng. Jason McLellan- Cyngor Sir Ddinbych
Cyng. Llinos Medi Huws - Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Charlie McCoubury - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng. Mark Pritchard - Cyngor Wrecsam
Cyng. Ian Roberts - Cyngor Sir y Fflint
Cyng. Dyfrig L Siencyn - Cyngor Gwynedd

Aelod Eryri

Cyng. Annwen Hughes – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Prif Swyddogion

Dafydd Gibbard - Cyngor Gwynedd – Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor
Dylan Williams - Cyngor Sir Ynys Môn
Iwan Davies - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Neal Cockerton - Cyngor Sir y Fflint
Graham Boase - Cyngor Sir Ddinbych
Ian Bancroft - Cyngor Wrecsam
Emyr Williams – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Swyddogion Statudol

Dewi Aeron Morgan – Prif Swyddog Cyllid
Iwan G Evans – Swyddog Monitro

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL — 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd 22 Gorffennaf 2022 fel rhai cywir.

## 5. RHAGOLWG O WARIANT 2022/23 CYD-BWYLLGOR CORFFORDEIG Y GOGLEDD — 7 - 12

Dewi A Morgan, Prif Swyddog Cyllid y CBC, Dafydd L Edwards, Swyddog Arweiniol y Prosiect CBC a Sian Pugh, Cyfrifydd Grŵp y CBC i ddarparu rhagolwg o wariant y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar gyfer 22/23.

## 6. RHEOLAU SEFYDLOG A CHYFANSODDIAD — 13 - 25

Iwan G D Evans, Swyddog Monitro i gyflwyno’r adroddiad.

## 7. SECONDIAD I RÔL PRIF WEITHREDWR Y CBC — 26 - 27

Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr y CBC a Dafydd Edwards, Swyddog Arweiniol Prosiect y CBC i gyflwyno’r adroddiad.

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD
# DYDD GWENER, 22 GORFFENNAF 2022

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Jason McLellan (Cyngor Dir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Mon), Charlie McCoubury (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mark Prichard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd)

Aelod Eryri: Y Cynghorydd Annwen Hughes (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

Prif Swyddogion – Emyr Williams (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Mon), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), , Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) a Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol –Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dafydd L. Edwards (Swyddog Arweiniol Prosiect y Cyd-Bwyllgor, a cynrychiolydd y Swyddog Cyllid Statudol), ac Annes Sion (Arweinydd Tîm  Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar yr 17 Mehefin 2022 fel rhai cywir.

**5. STRWYTHUR Y SEFYDLIAD A STAFFIO**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd Gibbard (Prif weithredwr y CBC) a Dafydd L Edwards (Swyddog Arweiniol Prosiect y Cyd-Bwyllgor).

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i gyflwyno cais i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ryddhau rhan o amser eu Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y Cyd Bwyllgor

Corfforedig hyd 31 Mawrth 2023.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad i gyflwyno cais i'r Bwrdd Uchelgais i ryddhau rhan o amser eu Cyfarwyddwr Corfforaethol i gyflawni'r rôl o Brif Weithredwr y Cyd Bwyllgor. Mynegwyd fod tri opsiwn wedi ei ystyried sef creu swydd annibynnol ond eglurwyd nad oedd yr opsiwn hwn yn un synhwyrol. Cynigwyd i benodi un o Prif Weithredwr awdurdod lleol yn ffurfiol fel Prif Weithredwr y CBC, eglurwyd fod hyn yn profi yn anodd i roi yr amser sydd ei angen i wneud y gwaith.

Nodwyd mai opsiwn o gyflwyno cais i'r Bwrdd Uchelgais sydd yn cael ei ffafrio gan Brif Weithredwyr y Gogledd, gan y bydd yn debygol y bydd y Bwrdd Uchelgais yn cael ei ymgorffori'n rhan o'r CBC yn fuan. Mynegwyd yn ogystal i aros am y tro a gohirio sefydlu unrhyw swyddi Cynllunio a Thrafnidiaeth ranbarthol er mwyn rhoi cyfle i Brif Weithredwr dros dro newydd i CBC i ddylanwadu ar y ffordd ymlaen.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad a nodwyd cefnogaeth i'r adroddiad.
- Nodwyd yr angen i roi cyfnod o amser ar gyfer y swydd dros dro a cytunwyd i ychwanegu hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**6. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG AR GYFER 2022/23**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth)

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd ar y dyddiadau isod ar gyfer cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer 2022/23

- 16 Medi (pm)
- 18 Tachwedd (pm)
- 13 Ionawr (am)
- 31 Mawrth (am)

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y dyddiadau uchod yn cael ei cyflwyno, gan egluro y bydd posibilrwydd o gyfarfodydd ychwanegol os bydd angen yn codi.

**7. MABWYSIADU SAFONAU'R GYMRAEG**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd Gibbard (Prif weithredwr y CBC).

**PENDERFYNIAD**

- Cytunwyd i'r Cydbwyllgor fabwysiadu Egwyddorion Iaith dros dro nes y bydd safonau pwrpasol yn cael eu gosod ar y Cydbwyllgor Corfforedig gan Gomisiynydd y Gymraeg
- Comisiynwyd cefnogaeth asesu effaith ieithyddol a'r gwasanaethau cyfieithu (cyfarfodydd ac ysgrifenedig) yn ôl yr angen gan Cyngor Gwynedd,

fel yr awdurdod sy'n bresennol cefnogi gwaith y Cyd Bwyllgor Corfforedig
- Comisiynwyd yr adnodd ar gyfer proses gosod Safonau gyda'r Comisiynydd, ynghyd â monitro gweithrediad y Safonau a llunio unrhyw adroddiadau cynnydd yn ôl yr angen gan Cyngor Gwynedd, fel yr awdurdod sy'n bresennol cefnogi gwaith y Cyd Bwyllgor Corfforedig.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi cywiriad i'r adroddiad gan amlygu nad mabwysiadu safonau iaith mae'r adroddiad hwn ond egwyddorion iaith. Eglurwyd fod yr adroddiad yn gofyn am gefnogaeth y Cydbwyllgor i barhau gyda'r gefnogaeth mae Cyngor Gwynedd yn ei gynnig ar hyn o bryd o ran gwasanaeth cyfieithu ac ar gyfer asesu effaith ieithyddol ynghyd a dechrau'r sgwrs gyda'r Comisiynydd o ran gosod Safonau iaith.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth
- Cefnogwyd y newid i'r geiriad a dangoswyd cefnogaeth i'r adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 10:10am

___________________________________

**CADEIRYDD**

# ADRODDIAD I GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

# 07/10/2022

**Teitl:** Rhagolwg o wariant 2022/23 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

**Awduron:** Dewi A Morgan, Prif Swyddog Cyllid y CBC
Dafydd L Edwards, Swyddog Arweiniol y Prosiect CBC
Sian Pugh, Cyfrifydd Grŵp y CBC

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu rhagolwg o wariant y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer 2022/23.

1.2 Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae angen i'r Cyd-Bwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa ariannol yn erbyn ei gyllideb flynyddol gymeradwy.

## 2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

**2.1 Nodi a derbyn rhagolwg o wariant y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar gyfer 2022/23 fel y cyflwynir yn Atodiad 1.**

**2.2 Bod tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei neilltuo i gronfa wrth gefn ar gyfer ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.**

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1 Nodi tanwariant a ragwelir o £59,777 yn erbyn ei gyllideb yn 2022/23, ac i'r tanwariant yma gael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn i'w neilltuo ar gyfer ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

## 4. CEFNDIR

4.1 Yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr 2022, cymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ei gyllideb ar gyfer 2022/23.

4.2 Parheir i fonitro ac adolygu'r gyllideb drwy gydol blwyddyn ariannol 2022/23, a chyflwynir adroddiad chwarter tri i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig ym mis Ionawr 2023.

## 5. RHAGOLWG O WARIANT 2022/23 FESUL PENNAWD

5.1 Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o ragolygon gwariant fesul pennawd yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

5.2 Rhagwelir y bydd y sefyllfa alldro net ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23 yn danwariant o £59,777.

Gweithwyr

5.3 Rhagwelir tanwariant o £49,700 ar y pennawd gweithwyr ar gyfer 2022/23.

5.4 Roedd y gyllideb gweithwyr wedi ei selio ar gyflogi/secondio dau weithiwr yn y maes Trafnidiaeth o Gorffennaf 2022 a tri gweithiwr yn y maes Cynllunio Strategol o Rhagfyr 2022. Nid oes penodiadau wedi eu gwneud hyd yma, ond rydym wedi amcanu'r costau o £49,240 (Cynllunio Strategol) a £33,820 (Trafnidiaeth) yn seiliedig ar i'r cyflogi/secondio ddechrau o Ionawr 2023. Yn ogystal, yn ei gyfarfod ar 22 Gorffennaf 2022, penderfynwyd cyflwyno cais i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru iddynt ryddhau rhan o amser eu Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y CBC, ar sail dros-dro hyd at Mawrth 2023. Mae'r amcan gost o £33,330 yn cynnwys amser y Prif Weithredwr am ddau ddiwrnod yr wythnos ynghyd â chefnogaeth y Chynorthwyydd Gweithredol am un diwrnod yr wythnos.

5.5 Mae cost lwfansau aelodau lleyg Is Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu y Cyd-Bwyllgor yn seiliedig ar i ddau bwyllgor gael ei gynnal erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Teithio

5.6 Mae’r amcan gost o £1,500 yn seiliedig ar amcangyfrif o lwfansau teithio hanfodol a chynhaliaeth staff a fydd ei angen yn ystod y chwe mis nesaf, sydd yn rhoi tanwariant o £2,500 ar y pennawd Teithio yn 2022/23.

Cyflenwadau a gwasanaethau

5.7 Rhagwelir tanwariant o £45,000 ar y pennawd cyflenwadau a gwasanaethau ar gyfer 2022/23. Mae £1,000 o danwariant ar bennawd cyflenwadau amrywiol, £4,000 o danwariant ar y pennawd ymgysylltu a chyfarfodydd a £40,000 o danwariant ar y pennawd ymgynghorwyr allanol.

Gwasanaethau Cefnogol

5.9 Rhagwelir tanwariant o £3,506 ar y pennawd gwasanaethau cefnogol ar gyfer 2022/23. Mae’r costau Cyllid yn cynnwys amser Swyddog Arweiniol y Prosiect CBC, ac mae’r rôl hynny wedi parhau yn hirach na’r hyn â ragwelwyd yn wreiddiol. Mae tanwariant o £11,008 ar y pennawd Cefnogaeth Corfforaethol oherwydd lleihad yn y niferoedd y cyfarfodydd ffurfiol, a lleihad o £2,677 ar y pennawd Technoleg Gwybodaeth. Gall cost y gefnogaeth cyfreithiol gynyddu pe byddai angen mewnbwn cyfreithiol i gynlluniau Trafnidiaeth a Chynllunio cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Treth ar Werth (TAW)

5.10 Yn wreiddiol, roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Lywodraeth San Steffan ddeddfu i roi statws adran 33 i'r cydbwyllgorau corfforedig, ac i hynny ddod i rym ar 1 Rhagfyr, ond erbyn hyn mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld oediad nes 1 Mawrth 2023. Golyga hyn na fydd modd ad-hawlio TAW ar unrhyw drafodion ariannol sy’n perthyn i’r cyfnod cyn Mawrth 2023. Rydym yn amcanu y bydd £40,929 o TAW ddim yn gallu cael ei ad-hawlio ar gyfer y trafodion a fydd yn cymryd lle yn ystod cyfnod yma.

## 6. CYFRANIADAU PARTNERIAID

6.1 Awgrymir i gyfraniadau'r partneriaid drwy ardoll barhau ar lefel y gyllideb yn 2022/23, gyda'r gwarged o £59,777 gael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn.

## 7. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd

7.1 Cyflwynwyd yr atodiad, ynghyd â chrynodeb o gynnwys yr adroddiad hwn, i Brif Swyddogion Cyllid ('Swyddog Adran 151') y saith awdurdod ar 16 Medi 2022, a daethpwyd i gydsyniad ar y ffordd ymlaen.

**ATODIADAU**

Atodiad 1 - Cyllideb Refeniw 2022/23 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd – Adolygiad Medi 2022.

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau I'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad hwn.

**Cyllideb Refeniw 2022/23 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd - Adolygiad Medi 2022**

**Atodiad 1**

| Gwariant | Cynllunio Strategol (£) | Trafnidiaeth (£) | Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) (£) | Cyfanswm Cyllideb (£) | Cynllunio Strategol (£) | Trafnidiaeth (£) | Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Gorwaraint / (Tanwariant) (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithwyr** | | | | | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 64,260 | 99,330 | 0 | 163,590 | 49,240 | 33,820 | 33,330 | 116,390 | (47,200) |
| Lwfans aelodau lleyg | 0 | 0 | 5,000 | 5,000 | 0 | 0 | 2,500 | 2,500 | (2,500) |
| **Cyfanswm Gweithwyr** | **64,260** | **99,330** | **5,000** | **168,590** | **49,240** | **33,820** | **35,830** | **118,890** | **(49,700)** |
| **Teithio** | | | | | | | | | |
| Teithio a chynhaliaeth | 2,000 | 2,000 | 0 | 4,000 | 500 | 500 | 500 | 1,500 | (2,500) |
| **Cyfanswm Teithio** | **2,000** | **2,000** | **0** | **4,000** | **500** | **500** | **500** | **1,500** | **(2,500)** |
| **Cyflenwadau a gwasanaethau** | | | | | | | | | |
| Offer a chyfarpar | 4,500 | 3,000 | 0 | 7,500 | 4,500 | 3,000 | 0 | 7,500 | 0 |
| Cyflenwadau amrywiol | 1,000 | 1,000 | 0 | 2,000 | 500 | 500 | 0 | 1,000 | (1,000) |
| Ymgysylltu a chyfarfodydd | 720 | 720 | 3,560 | 5,000 | 250 | 250 | 500 | 1,000 | (4,000) |
| Ffioedd Archwilio Cymru | 0 | 0 | 20,000 | 20,000 | 0 | 0 | 20,000 | 20,000 | 0 |
| Ymgynghorwyr allanol | 0 | 55,000 | 12,900 | 67,900 | 0 | 15,000 | 12,900 | 27,900 | (40,000) |
| Yswiriant | 7,500 | 7,500 | 0 | 15,000 | 7,500 | 7,500 | 0 | 15,000 | 0 |
| **Cyfanswm Cyflenwadau a gwasanaethau** | **13,720** | **67,220** | **36,460** | **117,400** | **12,750** | **26,250** | **33,400** | **72,400** | **(45,000)** |
| **Gwasanaethau Cefnogol** | | | | | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 0 | 0 | 25,100 | 25,100 | 0 | 0 | 35,279 | 35,279 | 10,179 |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 0 | 0 | 10,140 | 10,140 | 0 | 0 | 10,140 | 10,140 | 0 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 5,830 | 5,320 | 19,360 | 30,510 | 5,020 | 4,420 | 10,062 | 19,502 | (11,008) |
| Technoleg Gwybodaeth | 2,140 | 1,430 | 2,950 | 6,520 | 535 | 358 | 2,950 | 3,843 | (2,677) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol** | **7,970** | **6,750** | **57,550** | **72,270** | **5,555** | **4,778** | **58,431** | **68,764** | **(3,506)** |
| **TAW** | | | | | | | 40,929 | **40,929** | 40,929 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **87,950** | **175,300** | **99,010** | **362,260** | **68,045** | **65,348** | **169,090** | **302,483** | **(59,777)** |
| **Trosglwyddiad i / (o'r) gronfa wrth gefn** | | | | | **19,905** | **109,952** | **(70,080)** | **59,777** | **59,777** |
| **Cyfanswm ar ôl y trosglwyddiad i'r gronfa wrth gefn** | | | | | **87,950** | **175,300** | **99,010** | **362,260** | **0** |

| Incwm | Cynllunio Strategol (£) | Swyddogaethau eraill (£) | Cyfanswm Ardoll (£) | Cynllunio Strategol (£) | Swyddogaethau eraill (£) | Cyfanswm Ardoll (£) | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfraniadau Partneriaid drwy ardoll** | | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (14,270) | (46,220) | (60,490) | (14,270) | (46,220) | (60,490) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (12,030) | (37,530) | (49,560) | (12,030) | (37,530) | (49,560) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (19,700) | (61,450) | (81,150) | (19,700) | (61,450) | (81,150) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (13,090) | (48,910) | (62,000) | (13,090) | (48,910) | (62,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (8,750) | (27,290) | (36,040) | (8,750) | (27,290) | (36,040) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (16,970) | (52,910) | (69,880) | (16,970) | (52,910) | (69,880) | 0 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) | (3,140) | | (3,140) | (3,140) | | (3,140) | 0 |
| **Cyfanswm Incwm** | **(87,950)** | **(274,310)** | **(362,260)** | **(87,950)** | **(274,310)** | **(362,260)** | **0** |

| ***Poblogaeth perthnasol*** | ***Amcanion poblogaeth 2022*** | | ***Amcanion poblogaeth 2022*** | |
|---|---|---|---|---|
| *Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy* | *113,951* | *118,319* | *113,951* | *118,319* |
| *Cyngor Sir Ddinbych* | *96,021* | *96,021* | *96,021* | *96,021* |
| *Cyngor Sir y Fflint* | *157,264* | *157,264* | *157,264* | *157,264* |
| *Cyngor Gwynedd* | *104,503* | *125,220* | *104,503* | *125,220* |
| *Cyngor Sir Ynys Môn* | *69,864* | *69,864* | *69,864* | *69,864* |
| *Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam* | *135,466* | *135,466* | *135,466* | *135,466* |
| *Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)* | *25,085* | | *25,085* | |
| ***Cyfanswm poblogaeth*** | ***702,154*** | ***702,154*** | ***702,154*** | ***702,154*** |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Cyd-Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd** |
| DYDDIAD: | **7 Hydref 2022** |
| PWNC: | **Rheolau Sefydlog a Chyfansoddiad** |
| AWDUR: | **Iwan Evans Swyddog Monitro** |

---

**PENDERFYNIAD A GEISIR:**

1. **Mabwysiadu Atodiad 1**
   **(a) Rheolau Sefydlog ar gyfer Is Bwyllgorau**
   **(b) Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is Bwyllgorau canlynol;**

   - **Trafnidiaeth Strategol**
   - **Cynllunio Strategol**
   - **Llywodraethu ac Archwilio.**

2. **Dirprwyo hawl i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad a'r Swyddog Monitro i gwblhau cytundebau cyfethol gyda aelodau yr Is Bwyllgorau Trafnidiaeth a Chynllunio Strategol a threfnu drwy'r Swyddog Priodol i alw cyfarfod cychwynnol or Is Bwyllgorau.**
3. **Cytuno ar yr egwyddorion penodi aelodau i'r Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac awdurdodi y Prif Weithredwr i gynnal proses ceisio datganiadau o ddiddordeb gan adrodd i gyfarfod Rhagfyr y CBC ar gyfer penodi.**

---

**RHESWM AM Y PENDERFYNIAD**

1. Mae Rheoliadau Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd Bwyllgor Corfforedig ("CBC") wneud Rheolau Sefydlog er rheoleiddio ei weithrediadau a busnes.

2. Mae gofyn i CBC baratoi a chyhoeddi Cyfansoddiad.

3. Cymeradwywyd strwythur o Is Bwyllgorau gan y CBC yng Ngorffennaf a chytunwyd y byddai adroddiad pellach ar Reolau Sefydlog a Chylch Gorchwyl yn cael ei gyflwyno.

**CEFNDIR**

4. Penderfynodd y CBC ar y canlynol yn ei gyfarfod yng Ngorffennaf:

**“. Cytunwyd i sefydlu Is-Bwyllgor Cynllunio Strategol ac Is-Bwyllgor Trafnidiaeth Strategol a chymeradwywyd yr aelodaeth a’r hawliau pleidleisio canlynol –**

**i) Is-bwyllgor Cynllunio Strategol gyda 7 aelod â phleidlais, un o bob un o'r awdurdodau cyfansoddol (6 Chyngor ac APCE).**

**ii) Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol gyda 6 aelod â phleidlais, un o bob un o'r 6 Chyngor.**

**iii) Aelodaeth yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol i gynnwys yr aelod Cabinet perthnasol o bob Cyngor cyfansoddol sy'n dal y portffolio ar gyfer Polisi Cynllunio, a chynrychiolydd APCE.**

**iv) Aelodaeth yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol gynnwys yr aelod Cabinet perthnasol o bob Cyngor cyfansoddol sy'n dal y portffolio ar gyfer Polisi Trafnidiaeth.**

**5.** Nodwyd y byddai adroddiad manwl yn argymell Rheolau Sefydlog a chylch gorchwyl ar gyfer pob Is-Bwyllgor yn cael ei ddarparu ar gyfer cyfarfod diweddarach o’r CBC. O wneud hyn byddai hefyd yn caniatáu gweithredu i gyfethol yn ffurfiol.

6. Yn ogystal a’r penderfyniad yma nodwyd fod disgwyl eglurhad statudol pellach ar gyfer penodi Is Bwyllgorau statudol sef Llywodraethu ac Archwilio a Safonau. Bellach mae’r gofyn statudol ar gyfer aelodaeth Llywodraethu ac Archwilio wedi ei gadarnhau ac yn cael ei adlewyrchu yn y Rheolau Sefydlog a Chylch Gorchwyl. Golygai hyn fod angen symud ymlaen i benodi aelodaeth.

7. Mae’r Cylch Gorchwyl a argymhellir yn arwain rhagweld penodi aelodaeth yr Is Bwyllgor o blith aelodaeth gyfredol Pwyllgorau Llywodraethau ac Archwilio y cynghorau cyfansoddol. Mater i’r CBC fyddai penodi yr aelodaeth gan dderbyn eu od eisoes wedi eu derbyn / penodi i’r rôl yma. Awgrymir felly fod yr egwyddorion canlynol yn cael eu gweithredu:

1. Fod aelodaeth yr Is bwyllgor yn darparu cynrychiolaeth sydd yn adlewyrchu’r rhanbarth.
2. Yn ddarostyngedig i 1 uchod fod yr aelodaeth yn darparu ystod a cydbwysa o sgiliau ar gyfer yr Is Bwyllgor.

**8 . SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro**

Awdur yr adroddiad

**Y Pennaeth Cyllid**

Rwy’n gefnogol i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd fabwysiadu’r Rheolau Sefydlog a Cylch Gorchwyl a gynhigir yma’n ddi-oed –

- er mwyn i’r Is-Bwyllgor Cynllunio Strategol edrych ar opsiynau cyflawni a goblygiadau o ran costau ar gyfer cynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol y rhanbarth, a gwneud argymhellion amserol i’r CBC er mwyn llunio cyllideb y CBC ar gyfer 2023/24, ac

- er mwyn i’r Is-Bwyllgor Trafnidiaeth Strategol ystyried sut y gellid datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n cydymffurfio ac yn ddigon cadarn erbyn hanner cyntaf 2024, ac adnabod yr adnoddau angenrheidiol, eto er mwyn llunio cyllideb y CBC ar gyfer 2023/24.

Rwyf hefyd yn gefnogol i fabwysiadu Rheolau Sefydlog a Cylch Gorchwyl cyffelyb ar gyfer yr Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fydd yn medru adolygu a chraffu materion ariannol y CBC, derbyn adroddiadau archwilio, a goruchwylio priodoldeb yn gyffredinol.

**ADRAN 2**

# IS-BWYLLGORAU

## Penodiadau

2.1 Gall y CBC sefydlu is-bwyllgorau i'w gefnogi wrth weithredu ei swyddogaethau a/neu i gefnogi ei drefniadau llywodraethu a gweinyddu. Fodd bynnag, ni ellir dirprwy rhai swyddogaethau penodol i is-bwyllgor (gweler paragraff 1.5)

2.2 Bydd CBC Rhanbarth y Gogledd yn sefydlu is-bwyllgorau ar gyfer pob un o'r meysydd swyddogaethol allweddol y mae yn eu gweithredu. Rhaid i'r CBC sefydlu'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

2.3 Wrth sefydlu is-bwyllgorau, ac ystyried pwy i'w gynnwys yn yr is-bwyllgor, bydd CBC Rhanbarth y Gogledd yn ystyried:

- natur y dasg/gweithgarwch i'w hystyried
- yr arbenigedd/sgiliau perthnasol y gallai fod eu hangen i gefnogi CBC Rhanbarth y Gogledd yn ei benderfyniadau
- rhyw, amrywiaeth, a chydbwysedd diwylliannol aelodaeth is-bwyllgor a sut y gallai/dylai hyn gynrychioli'r cymunedau y mae CBC Rhanbarth y Gogleddyn eu gwasanaethu

## Strwythur

2.4 Gall CBC Rhanbarth y Gogledd benodi aelodau CBC Rhanbarth y Gogledd ac Aelodau Cyfetholedig i is-bwyllgor.

2.5 Gellir ffurfio is-bwyllgorau yn gyfan gwbl o aelodau cyfetholedig os yw CBC Rhanbarth y Gogledd yn ystyried hynny'n briodol.

2.6 Caiff rheolau a gweithdrefnau'r is-bwyllgorau eu sefydlu a'u diwygio gan CBC y Gogledd.

## Dirprwyo

2.7 Dim ond y swyddogaeth honno a ddirprwyir iddo y gall is-bwyllgor ei gweithredu.

2.8 Ni all y CBC ddirprwyo unrhyw rai o'r isod i unrhyw berson nac is-bwyllgor arall:

- Y swyddogaeth o gymeradwyo ac adolygu polisi trafnidiaeth dan ddarpariaethau perthnasol Deddf Trafnidiaeth 2000 ("Swyddogaeth Polisi Trafnidiaeth");
- Y gweithredoedd mewn perthynas â pharatoi Cynllun Datblygu Strategol (y "Swyddogaeth Cynllun Datblygu Strategol") sydd wedi'u nodi yn Rheoliad 15(b) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021;
- Y penderfyniad i gytuno ar gyllidebau'r CBC a chyfraniadau'r Cynghorau Cyfansoddol a'r Awdurdod.

**CADEIRIO CYFARFODYDD**

2.9 Yr eitemau busnes cyntaf i'w trafod yng nghyfarfod cyntaf yr is-bwyllgor yw penodi cadeirydd ac is-gadeirydd. Bydd y Swyddog Priodol yn cadeirio'r cyfarfod ar gyfer yr eitem busnes gychwynnol honno.

2.10 Yr eitemau busnes cyntaf i'w trafod yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol dilynol yr is-bwyllgor yw penodi cadeirydd ac is-gadeirydd.

2.11 Os daw swydd y cadeirydd neu'r is-gadeirydd yn wag yn ystod cyfnod y swydd bydd y penodiad i lenwi'r swydd gael ei wneud yng nghyfarfod cyntaf yr is-bwyllgor i'w gynnal wedi i'r swydd ddod yn wag.

2.12 Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau ynglŷn a'r Is Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio a Safonau rhaid i'r cadeirydd a'r is-gadeirydd ill dau/dwy fod yn aelod etholedig o Gyngor Cyfansoddol.

2.13 Rhaid i gyfarfodydd yr is-bwyllgor gael eu cadeirio gan y cadeirydd neu os yw'r cadeirydd y absennol, gan yr is-gadeirydd.

**CWORWM**

2.14 Oni bai y datgenir yn wahanol rhaid i ddim llai na 70% o'r sawl sydd â hawl i bleidleisio fod yn bresennol.

2.15 Bydd aelodau'n cael eu hystyried yn bresennol mewn cyfarfod lle maent yn mynychu'r cyfarfod hwnnw o bell yn unol â threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad cyn belled â'u bod yn gallu siarad, clywed a chael eu clywed gan fynychwyr eraill yn y cyfarfod.

2.16 At ddibenion para 8.3, mae presenoldeb "o bell" yn golygu presenoldeb mewn lleoliad ffisegol gwahanol i un cyfranogwyr eraill a chymryd rhan drwy blatfform cyfarfod ar-lein

## Pleidleisio

2.17 Gall unrhyw aelod o is-bwyllgor CBC Rhanbarth y Gogledd (gan gynnwys Aelodau Cyfetholedig â phleidlais) bleidleisio ar faterion i'w penderfynu gan yr is-bwyllgor hwnnw yn unig.

## Tryloywder

2.18 Mae Adrannau 10 i 13 o Reolau Sefydlog Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn berthnasol i gyfarfod o is-bwyllgor o'r CBC fel y maent yn berthnasol i gyfarfod o'r CBC.

.

**Is-bwyllgorau**

**2.19 Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol .**

2.19.1 Bydd y CBC yn penodi Is-bwyllgor (a elwir yn Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol - **"Swyddogaeth Trafnidiaeth Strategol "**) i baratoi a monitro polisïau trafnidiaeth dan adrannau 108(1)(a) a (2A)(a) Rhan 2 Deddf Trafnidiaeth 2000 neu unrhyw swyddogaethau'r CBC sy'n ategol neu'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hynny.

2.19.2 Mae Cylch Gorchwyl yr is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'u nodi yn **Rhan 1 Adran 2** a gellir diwygio'r cylch gorchwyl hwnnw gan y CBC o bryd i'w gilydd.

2.19.3 Bydd aelodaeth yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn cynnwys yr aelodau perthnasol o bob cyngor cyfansoddol sydd a chyfrifoldeb am Bolisi Trafnidiaeth.

**2.20 Is-bwyllgor Cynllunio Strategol**

2.20.1 Bydd y CBC yn penodi Is-bwyllgor (a elwir yn Is-bwyllgor Cynllunio Strategol - **"Swyddogaeth Cynllun Datblygu Strategol"**) i gefnogi'r gwaith o weithredu'r swyddogaethau cynllunio strategol neu unrhyw swyddogaethau'r CBC sy'n ategol neu'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hynny fel y nodir yn Rheoliad 15(b) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021.

2.20.2 Mae Cylch Gorchwyl yr is-bwyllgor Cynllunio Strategol wedi'u nodi yn **Rhan 2 Adran 2** a gellir diwygio'r cylch gorchwyl hwnnw gan y CBC o bryd i'w gilydd.

2.203 Bydd aelodaeth yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol yn cynnwys yr aelodau perthnasol o bob cyngor cyfansoddol sydd a chyfrifoldeb am Bolisi Cynllunio ynghyd a'g aeloda a enwebir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

**2.21 Is-bwyllgor Uchelgais Gogledd Cymru**

I'w gynnwys i'r dyfodol

**2.22 Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

2.22.1 Rhaid i'r CBC sefydlu is-bwyllgor (a elwir yn Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio)

2.22.2 Mae Cylch Gorchwyl yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio wedi'u nodi yn **Rhan 4 Adran 2** a gellir diwygio'r cylch gorchwyl hwnnw gan y CBC o bryd i'w gilydd.

2.22.3 Bydd aelodaeth yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys 9 Aelod gyda 6 ohonynt yn aelodau etholedig a dynnir o ac a enwebir gan Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio pob un o'r 6 Chyngor Cyfansoddol a bydd 3 ohonynt yn Aelodau Lleyg..

**Cyfarfodydd**

2.23 Mae gofyn i'r Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfarfod unwaith bob blwyddyn calendr o leiaf.

**2.24 Is-bwyllgor Safonau**

I'w gynnwys i'r dyfodol

## IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL  CYLCH GORCHWYL

### Rheoliadau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Mae'r Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 yn darparu y bydd y CBC yn gweithredu'r swyddogaethau o ddatblygu polisïau dan adran 108 Deddf Trafnidiaeth 2000.

Mae'r ("Rheoliadau Trafnidiaeth") yn addasu Deddf Trafnidiaeth 2000 mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir dan Ran 5 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 lle mae swyddogaethau datblygu polisïau dan adran 108 Deddf Trafnidiaeth 2000 wedi'u cyflwyno i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

### RÔL:

gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gymeradwyo ac adolygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

cyflwyno argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar bolisïau i'w gweithredu gan yr awdurdodau trafnidiaeth lleol yn ei ardal o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru."

cynghori a gwneud argymhellion ar gydlynu gwasanaeth cludiant strategol integredig yn y Gogledd; drwy fonitro ac adolygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

cynllunio, cydlynu a chynghori ar ymatebion rhanbarthol i gynigion Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus Llywodraeth Cymru.

adrodd yn rheolaidd i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gynnydd, perfformiad, canlyniadau a gofynion adnoddau, gan gadw ei gynlluniau a'i bolisïau trafnidiaeth rhanbarthol dan adolygiad ac argymell unrhyw newidiadau os yw'n ystyried ei bod hi'n briodol gwneud hynny.

ymgymryd ag unrhyw weithgareddau sy'n ategol neu'n rhesymol gysylltiedig â chyflawni'r swyddogaethau hyn

bydd gan Gadeirydd yr is-bwyllgor rôl allweddol wrth ddarparu arweinyddiaeth a chysylltiadau allweddol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yng nghyswllt gwaith yr Is-bwyllgor a'i rôl ymgynghorol wrth ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

cynghorir yr Is-Bwyllgor gan Swyddogion y CBC a'i Swyddogion Statudol neu eu cynrychiolwyr neu ddirprwyon a benodir yn briodol.

### Strategol

cydlynu gweithgarwch Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill fel y byddai dull rhanbarthol strategol yn ei le yn y maes polisi perthnasol;

darparu cyngor strategol perthnasol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig;

cefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i ddylanwadu ar bolisïau cenedlaethol a rhaglenni ariannu;

gweithredu penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig; Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rhoi cyfarwyddyd ac yn comisiynu'r Is-bwyllgorau i ymgymryd â thasgau allweddol.

### Rheoli Prosiectau a Rhaglenni

cydlynu cynllunio, datblygu a chyflawni Rhaglen(ni)/Prosiect(au) perthnasol o fewn y Cylch Gorchwyl hwn;

monitro ac adolygu cynnydd ac effaith y Rhaglen(ni)/Prosiect(au) perthnasol, a chyflwyno unrhyw argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Monitro ac adolygu lefel a defnydd adnoddau gan gynnwys staff a lle mae'n ystyried yn briodol gwneud argymhellion i'r CBC mewn perthynas â'r materion hyn.

**Rheoli Adnoddau**

Monitro ac adolygu lefel a defnydd adnoddau gan gynnwys staff a lle mae'n ystyried yn briodol gwneud argymhellion i'r CBC mewn perthynas â'r materion hyn.

**Rheoli Perfformiad**

Cydlynu adrodd am berfformiad i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig o leiaf yn Chwarterol.

**CYFRIFOLDEBAU A'R HYN SYDD I'W GYFLAWNI:**

Cyfathrebu a Chodi Ymwybyddiaeth

Bydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn paratoi adroddiad chwarterol ar ei waith ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig a fydd yn cynnwys:

Cynnydd ar weithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys Rhaglenni a Phrosiectau unigol.

Perfformiad Ariannol y Pwyllgor

Datblygiadau sydd ar y gweill.

Bydd yr adroddiad yn ffurfio rhan o brotocol craffu cytûn a bydd ar ffurf a fydd yn hwyluso ei gyflwyno i drefniadau Craffu neu drefniadau llywodraethu eraill fel y pennir gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

**CWORWM:**

Rhaid i ddim llai na 4 o aelodau'r cynghorau cyfansoddol fod yn bresennol.

**ADOLYGU**:

Bydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn cynnal hunan-asesiad blynyddol o'i weithgareddau o dan y Cylch Gorchwyl hwn ac yn adrodd unrhyw gasgliadau ac argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ac, fel rhan o'r asesiad hwn, bydd yn ystyried a yw'n derbyn cefnogaeth ddigonol a phriodol ai peidio wrth gyflawni ei rôl ac a yw ei gynllun gwaith blynyddol yn hylaw ai peidio.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu ei Gylch Gorchwyl yn flynyddol a gall argymell i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig unrhyw ddiwygiadau i'w Gylch Gorchwyl.

**IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL - CYLCH GORCHWYL**

**Swyddogaethau'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol**

Bydd yr Is-bwyllgor yn goruchwylio'r swyddogaethau penodol a ganlyn yn y gorchymyn a gyflwynir, yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 cyn cynghori a cheisio cymeradwyaeth y CBC (sylwer hefyd y cyfyngiadau ar gyflawni swyddogaeth o dan Adran 6):

Ystyried a datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn sydd ei hangen ar gyfer yr SDP a gefnogir gan weithgorau'r SDP ac mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Cynllunio Lleol rhanbarthol. (gweler uchod mewn coch)

Goruchwylio adnabod cyrff ymgynghori i gymryd rhan yn y broses SDP - 'cyffredinol' a 'penodol' (Rheoliad 5 & 6),

Paratoi Cytundeb Cyflawni drafft (Amserlen a Chynllun Cyfranogiad Cymunedol) ar gyfer paratoi'r SDP a SA/SEA – gan gynnwys gofynion ymgysylltu, cynnwys, hysbysiad a chyhoeddi (Rheoliadau 7 i 12)

Paratoi'r LDP (Ffurflen, Cynnwys y SDP a'r Map Cynigion) yn unol â (Rheoliadau 13 i 14)

Ystyried materion ychwanegol y mae angen rhoi gwybod i'r CBC amdanynt, sef Adran 108 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 a materion eraill (Rheoliad 15)

Ymgymryd â galwad am leoliadau a safleoedd strategol ymgeiswyr a pharatoi "cofrestr safleoedd a lleoliadau strategol ymgeiswyr" at ddibenion hysbysu argaeledd tir ledled y rhanbarth (Rheoliad 16 (1)(b)-(d))

Goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu cynigion Cyn-adnau y SDP (dogfennau paratoi, cyfranogiad a chynigion) – at ddiben ystyried ystod o opsiynau a strategaethau amgen (Rheoliad 16 i 17).

Goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu Arfarniad Cynaliadwyedd SDP (SA) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) yn unol â (a39 (2) Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau SEA 5(2) a 5(4) yn y drefn honno).

Paratoi a chynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus cyn-adnau angenrheidiol (Rheoliad 18)

Paratoi'r adroddiad sylwadau ymgynghori cyhoeddus cyn adnau ar gyfer y CBC (Rheoliad 19)

Goruchwylio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adnau – Dogfennau i'w paratoi, gofynion hysbysu a chyhoeddi, ymgynghoriad cyhoeddus statudol (isafswm o 6 wythnos) ac ystyried sylwadau (Rheoliadau 20 i 22)

Paratoi cyflwyno'r SDP i'w archwilio – Dogfennau i'w paratoi/eu cyflwyno, gofynion cyhoeddi a hysbysu (Rheoliad 23)

Paratoi ar gyfer a rheoli Archwiliad Annibynnol y SDP gan gynnwys gofynion hysbysu a chyhoeddi (Rheoliad 24)

Ystyried ac ymateb i Adroddiad yr Arolygwyr - gan gynnwys gofynion hysbysu a chyhoeddi (Rheoliad 25)

Lle bo angen, bydd yr is-bwyllgor yn ymateb i faterion sy'n ymwneud â 'materion sy'n atal mabwysiadu' (Rheoliad 26), 'cyfeiriad i addasu'r SDP' (Rheoliad 27) a 'galw i mewn' (Rheoliadau 28 – 32)

Paratoi ar gyfer Mabwysiadu - gan gynnwys gweithdrefnau mabwysiadu, hysbysu a gofynion cyhoeddi (Rheoliad 35)

Goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) - gan gynnwys gofynion cynnwys, cyhoeddi a hysbysu (Rheoliad 27).

Goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu Adroddiad Adolygu'r SDP (dim hwyrach na 6 mlynedd ar ôl mabwysiadu) (Rheoliad 39)

**Rheoli Prosiectau a Rhaglenni**

cydlynu cynllunio, datblygu a chyflawni Rhaglen(ni)/Prosiect(au) perthnasol o fewn y Cylch Gorchwyl hwn;

monitro ac adolygu cynnydd ac effaith y Rhaglen(ni)/Prosiect(au) perthnasol, a chyflwyno unrhyw argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Monitro ac adolygu lefel a defnydd a gwerth am arian adnoddau gan gynnwys staff a lle mae'n ystyried yn briodol gwneud argymhellion i'r CBC mewn perthynas â'r materion hyn.

Monitro ac adolygu lefel a defnydd adnoddau gan gynnwys staff a lle mae'n ystyried yn briodol gwneud argymhellion i'r CBC mewn perthynas â'r materion hyn.

**Rheoli Perfformiad**

Ymgymerir â'r isod:

Cydlynu adrodd am berfformiad i'r CBC o leiaf yn Chwarterol yn unol â Chytundeb Cyflawni'r SDP neu fel y gweithredwyd gan y CBC.

Cydlynu a chyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) statudol i'r CBC wedi mabwysiadu'r SDP

Cyflwyno Adroddiad Adolygu SDP i'r CBC lle bo angen o dan reoleiddio statudol neu'n gynnar os yw'r AMR yn dod i ben fel arall.

**CWORWM:**

Rhaid i ddim llai na 5 o aelodau fod yn bresennol.

# Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Rhaid i'r CBC sefydlu is-bwyllgor a elwir yn Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â pharagraff 16(1) Rheoliadau Sefydlu'r CBC. (*Nodir, mewn deddfwriaeth llywodraeth leol, y cyfeirir at hyn fel 'pwyllgor llywodraethu ac archwilio', fodd bynnag gan fod CBC Rhanbarth y Gogledd ei hun yn bwyllgor y mae'n briodol cyfeirio ato fel is-bwyllgor mewn perthynas â'r CBC.)*

## Swyddogaethau

Mae cylch gorchwyl yr is-bwyllgor wedi'u nodi yn Rheoliadau Sefydlu'r CBC sy'n nodi bod rhaid i'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio:

a) Swyddogaethau dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

b) Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau statudol a ganlyn o dan Adran 81 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 fel y'i diwygiwyd:

c) adolygu a chraffu materion ariannol y CBC;

d) gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol y CBC;

e) adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a threfniadau llywodraethu corfforaethol y CBC;

f) gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r CBC ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny;

g) adolygu ac asesu gallu'r CBC i ymdrin â chwynion yn effeithiol;

h) gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r CBC i ymdrin â chwynion yn effeithiol;

i) archwilio trefniadau archwilio mewnol ac allanol y CBC; a

j) adolygu unrhyw ddatganiadau ariannol a baratoir gan y CBC.

k) Ymgymryd â swyddogaethau pellach y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dan Bennod 1 pf Rhan 6 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad a llywodraethu prif gynghorau)

l) Bydd y pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau a ganlyn:-

1(i) hyrwyddo archwiliad mewnol, sefydlu amserlen i gynnal adolygiad o reolaeth, datblygu diwylliant gwrth-dwyll ac adolygu gweithrediadau ariannol;

2(ii) ystyried arsylwadau a phryderon ar wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan swyddogion y Cyngor, y Comisiwn Archwilio neu'r Archwilydd Dosbarth a monitro'r ymateb a'r camau gweithredu ar yr argymhellion a'r canfyddiadau.

## Aelodaeth

Rhaid i aelodaeth yr Is Bwyllgor Lywodraethu ac Archwilio gynnwys o ‘leiaf un rhan o dair o aelodau lleyg ac o ‘leiaf dwy ran o dair o aelodaeth o’r cynghorau cyfansoddol Penodir yr aelodaeth gan CBC Rhanbarth y Gogledd.

Ni all aelodau o Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio CBC fod yn aelod o'r CBC, yn aelod o weithrediaeth cyngor cyfansoddol na'n aelod cyfetholedig (mae aelod cyfetholedig yn yr achos hwn yn golygu person sydd wedi'i wedi gyfethol ar y CBC, neu i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r CBC, heblaw ‘r Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio).

Dylai’r Is Bwyllgor Lywodraethu ac Archwilio gael ei sefydlu gan y CBC yn cynnwys aelodau i’w penodi o bwyllgorau llywodraethu ac archwilio cynghorau cyfansoddol (neu hysbyseb allanol os nad yw hyn yn bosib) ac aelodau o blith pob cyngor cyfansoddol.

Ni chaiff yr Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio arfer ei swyddogaethau os yw aelodaeth yr is-bwyllgor yn torri gofynion is-baragraff (2)

**<u>Canllawiau Gweinidogion Cymru</u>**

Rhaid i'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan Adran 85(1) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

**<u>Cworwm</u>**

Y cworwm ar gyfer yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio yw 7 aelod gydag o leiaf un aelod yn bresennol o bob Cyngor Cyfansoddol ac o leiaf un Aelod Lleyg.

## Rhan 5

**Rôl a Swyddogaeth**

Bydd gan y pwyllgor safonau y rolau a'r swyddogaethau a ganlyn:

a) hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau;

b) cynorthwyo Aelodau i gadw at God Ymddygiad yr Aelodau;

c) cynghori'r CBC ar fabwysiadu neu adolygu Cod Ymddygiad yr Aelodau;

d) monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau;

e) cynghori ar hyfforddiant neu drefnu i hyfforddi Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau;

f) caniatáu gollyngiadau i Aelodau o ofynion sy'n ymwneud â buddiannau a nodir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau;

g) ymdrin ag unrhyw adroddiadau gan dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

h) goruchwylio trefn chwythu chwiban y CBC;

i) rhoi cyngor i Aelodau unigol ar faterion fel trin buddiant personol ac ar faterion ymddygiad yn gyffredinol.

j) pennu camau priodol ar faterion y cyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

k) goruchwylio'r Gofrestr Buddiant Aelodau a Swyddogion.

l) goruchwylio rheolau a phrotocolau'r CBC ar atebolrwydd aelodau.

m) goruchwylio presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd perthnasol.

Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, bydd y pwyllgor safonau yn gwneud adroddiad blynyddol i'r CBC yn nodi'r hyn a ganlyn:

a) sut mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi'u cyflawni

b) yr hyn a wnaed i gyflawni'r swyddogaethau cyffredinol a phenodol;

c) adroddiadau ac argymhellion a wnaed neu a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan yr Ombwdsman;

d) camau a gymerwyd gan y pwyllgor ar ôl iddo ystyried adroddiadau ac argymhellion o'r fath;

e) hysbysiadau a roddir i'r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru.

f) unrhyw faterion eraill y mae'r pwyllgor yn dymuno tynnu sylw'r CBC ato mewn perthynas â swyddogaethau'r pwyllgor safonau.

CYFARFOD: **Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (y CBC)**

DYDDIAD: **7 Hydref 2022**

PWNC: **Secondiad i rôl Prif Weithredwr y CBC**

SWYDDOG CYSWLLT: **Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr y CBC, a Dafydd Edwards, Swyddog Arweiniol Prosiect y CBC**

---

**PENDERFYNIAD A GEISIR:**

**Penodi Alwen Williams yn Brif Weithredwr rhan-amser y CBC, ar sail secondiad dros dro, hyd nes caiff y swydd ei hadolygu eto gan y CBC ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022/23.**

**Dirprwyo'r grym i Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd gadarnhau trefniadau ffurfiol ar gyfer y secondiad.**

---

## 1. Cyflwyniad / Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â phenodi Prif Weithredwr dros dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (y CBC).

Yn ei gyfarfod ar 17 Mehefin 2022, gwnaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd drefniadau priodol gan gynnwys penodi Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd, i rôl Prif Swyddog Gweithredol y CBC ar sail dros dro, yn weithredol hyd nes i'r trefniadau gael eu hadolygu gan y CBC.

Yn ei gyfarfod ar 22 Gorffennaf 2022, gwnaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd adolygu rôl eu Prif Weithredwr ac, ar ôl ystyried yr opsiynau, penderfynwyd i gyflwyno cais i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ryddhau rhan o amser eu Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y Cyd Bwyllgor Corfforedig o leiaf hyd at 31 Mawrth 2023.

Dewiswyd yr opsiwn o gyflwyno'r cais yma i'r Bwrdd Uchelgais gan ei fod yn debygol bydd y Bwrdd Uchelgais yn cael ei ymgorffori'n rhan o'r CBC, byddai cost sylweddol uwch pe bai swydd Prif Swyddog annibynnol wedi'i greu, a gan nad oes digon o amser ar gael i un o'r 6 Phrif Weithredwr awdurdod lleol oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r CBC.

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn caniatáu hyblygrwydd sut y gall y CBC gyflogi staff, gan gynnwys swyddogion statudol. Gall y CBC eu cyflogi'n uniongyrchol, neu gall wneud trefniadau gydag awdurdodau cyfansoddol i'w staff gael eu rhoi wrth law'r CBC. Felly, gall y swydd hyn gael ei secondio rhan-amser o awdurdod lletya'r BUE.

## 2. Penderfyniad a gofynion y Bwrdd Uchelgais

Roedd angen i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gymeradwyo'r opsiwn yma. Yn ei gyfarfod ar 30 Medi 2022, cytunodd y Bwrdd Uchelgais i ryddhau rhan o amser eu Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y CBC.

Yn unol â'r disgwyl, mae nifer o agweddau y angen sylw o safbwynt y Bwrdd Uchelgais, megis 'ôl-lenwi' rhan o rôl y Cyfarwyddwr Portffolio i greu'r capasiti angenrheidiol.

Bydd angen i'r CBC roi cyfraniad ariannol i'r BUE er mwyn rhoi'r hyblygrwydd iddynt allu gwneud yr addasiadau mewnol sydd ei angen arnynt o ganlyniad i'r secondiad rhan-amser hwn (er mwyn i'r BUE allu parhau i gyflawni'r Rhaglen Twf yn effeithiol).

Bydd y Bwrdd Uchelgais yn parhau'n gyflogwr cytundebol i Alwen Williams, a bydd y CBC yn talu ffi i'r Bwrdd Uchelgais am ei secondiad. Gofynnir i'r CBC awdurdodi Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd i drefnu hyn o fewn yr hyblygrwydd sydd yng nghyllideb 2022/23 y CBC.

## ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gadarnhau secondiad rhan-amser Alwen Williams i rôl Prif Weithredwr y CBC, yn unol â'r penderfyniad a geisir ac o dan y telerau a amlinellir uchod.**

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Swyddog Monitro

Wrth i'r CBC gael ei sefydlu mae elfen drosiannol yn y gwaith, yn arbennig felly o safbwynt y gyd berthynas gydag Uchelgais Gogledd Cymru. Gyda cyd-syniad y Bwrdd Uchelgais i gais y CBC am ryddhau amser y Cyfarwyddwr Portffolio, mae modd mynd ati gyda'r penodiad. Fel y nodir yn yr adroddiad, mae trefniadau dros dro yn cael eu cydnabod fel rhan priodol o'r tirwedd wrth i'r CBC ymsefydlu.

### Swyddog Cyllid Statudol

Rwyf wedi gweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad hwn ac rwy'n cadarnhau'r cynnwys.